CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
CONWY
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWASANAETH LLYFRGELL, GWYBODAETH AC ARCHIFAU

LIBRARY, INFORMATION AND ARCHIVES SERVICE

# Is-ddeddfau

# Bye-laws

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY**

Llyfrgelloedd

**IS-DDEDDFAU**

a wneir o dan

Adran 19 Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 gan **Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

1. Yn yr is-ddeddfau hyn, oni fyn y cyd-destun yn wahanol:

   a) golyga "y Ddeddf" Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964;

   b) golyga "tâl" unrhyw dâl a osodir yn unol â'r Rheoliadau;

   c) golyga "plentyn" berson o dan 12 mlwydd oed;

   ch) mae "sefyllfa argyfwng" yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae angen gwcáu llyfrgell neu ran o lyfrgell am resymau diogelwch new oherwydd perygl tân neu berygl arall ac ymarferion a galwadau ffug mewn perthynas â hynny;

   d) golyga "cyfeiriad hysbys diwethaf" y cyfeiriad diwethaf a gadwyd ar gofnodion yr awdurdod llyfrgell;

   dd) golyga "yr awdurdod llyfrgell " Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;

   e) golyga "llyfrgell"

      i. unrhyw libart a feddiennir gan awdurdod llyfrgell sydd hefyd yn libart lle darperir cyfleusterau llyfrgell gan yr awdurdod, wrth ddarparu gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus i'r cyhoedd;

      ii. unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan yr awdurdod llyfrgell ar gyfer darparu gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus i'r cyhoedd ac sy'n gerbyd y mae cyfleusterau ar gael tu mewn iddo;

   ac mae'n cynnwys unrhyw ran o'r fath libart neu gerbyd;

   f) golyga "swyddog llyfrgell" unrhyw swyddog a gyflogir gan yr awdurdod llyfrgell mewn cysylltiad â'i swyddogaethau o dan y Ddeddf;

   ff) mae "eiddo'r llyfrgell" yn cynnwys eiddo sy'n perthyn i'r awdurdod llyfrgell neu a ddarperir at ddefnydd yr awdurdod llyfrgell, boed yr awdurdod llyfrgell yn ei ddarparu i'w ddefnyddio gan y cyhoedd ai peidio, ac eiddo y caiff yr awdurdod llyfrgell feddiant arno i'w fenthyca i'r cyhoedd neu ei ddefnyddio ganddynt;

## CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL

Libraries

**BYELAWS**

**made under**
Section 19 of the Public Libraries and Museums Act 1964 by the
**Conwy County Borough Council**

1. In these byelaws, unless the context otherwise requires:

   a) "the Act" means the Public Libraries and Museums Act 1964;

   b) "charge" means any charge imposed in accordance with the Regulations;

   c) "child" means a person under the age of 12 years;

   ch) "emergency situation" includes situations where a library or a part of a library is required to be evacuated for security reasons or because of threat from fire or other hazard and practises and false alarms in relation thereto;

   d) "last known address" means the last address held on the library authority's records;

   dd) "the library authority" means Conwy County Borough Council;

   e) "library" means

      i. any premises which are occupied by a library authority and are premises where library facilities are made available by the authority in the course of their provision of a public library service, to members of the public;

      ii. any vehicle which is used by the library authority for the purpose of providing a public library service to members of the public and is a vehicle in which facilities are made available;

      and includes any part of such premises or vehicle;

   f) "library officer" means any officer employed by the library authority in connection with its functions under the Act;

   ff) "library property" includes property owned by or provided for the use of the library authority whether or not it is made available by the library authority for use by the public and property obtained by the library authority for the loan to or use of the public;

g) golyga "y Rheoliadau" Reoliadau Taliadau Llyfrgell (Cymru a Lloegr) 1991 SI 1991/2712;

ng) mae geiriau sy'n golygu'r gwrywaidd hefyd yn cynnwys y benywaidd, geiriau yn yr unigol yn cynnwys y lluosog a geiriau yn y lluosog yn cynnwys yr unigol;

h) golyga ymadroddion a ddefnyddir yr hyn sydd iddynt yn y Ddeddf a'r Rheoliadau oni fynegir bwriad gwahanol.

2. Ni fydd unrhyw weithred a gyflawnir gan swyddog llyfrgell mewn cysylltiad â chyflawni ei ddyletswyddau yn y modd iawn yn groes i'r is-ddeddfau hyn.

3. Ni chaiff neb roi enw neu gyfeiriad ffug ar gyfer mynd i mewn i lyfrgell neu ar gyfer defnyddio unrhyw un o gyfleusterau'r llyfrgell.

4. Ni chaiff neb sydd ym marn resymol swyddog llyfrgell yn wrthun o aflan fel person neu mewn gwisg neu'r ddau, aros yn y llyfrgell os gofynna'r swyddog llyfrgell iddo adael.

5. Oni bai fod swyddog llyfrgell yn caniatau, ni chaiff neb:

a) beri na chaniatau i unrhyw gi (ac eithrio ci gwaith sy'n hebrwng person anabl) neu unrhyw anifail arall sy'n eiddo iddo neu dan ei reolaeth ddod i mewn i lyfrgell neu aros yn y llyfrgell;

b) ddod â cherbyd ar olwynion neu unrhyw gerbyd arall ac eithrio cadair olwyn, pram, coets gadair neu droli siopa i mewn i unrhyw ran o'r llyfrgell;

c) fynd i mewn i unrhyw ran o'r llyfrgell y byddai neu y dylai person rhesymol wybod ei fod yn waharddedig i'r cyhoedd neu aros yno, neu;

ch) aros yn y llyfrgell ar ôl yr amser y pennwyd iddi gau.

6. Ni chaiff unrhyw berson aros yn y llyfrgell ar ôl cael ei hysbysu fod sefyllfa argyfwng yn bodoli.

7. Ni chaiff neb, oni chaniateir iddo'n benodol gan swyddog llyfrgell, fynd neu geisio mynd ag unrhyw eiddo sy'n perthyn i'r llyfrgell allan o'r llyfrgell neu heibio unrhyw bwynt rheoli neu bwynt diogelwch.

8. Ni chaiff neb ymddwyn mewn modd afreolus yn y llyfrgell na defnyddio iaith ffyrnig, sarhaus neu anweddus yno, neu'n fwriadol neu'n ddiofal achosi neu wneud unrhyw beth sy'n debygol o achosi anaf i unrhyw berson arall neu eiddo.

9. Ni chaiff neb, ar ôl ei rybuddio gan swyddog llyfrgell, barhau i gysgu yn y llyfrgell.

g) "the Regulations" means The Library Charges (England and Wales) Regulations 1991 SI 1991/2712;

ng) words importing the masculine gender include the feminine, words in the singular include the plural and words in the plural include the singular;

h) expressions used, unless the contrary intention appears, have the meaning which they bear in the Act and Regulations

2. An act performed in connection with the proper execution of his duties by a library officer shall not be a contravention of these byelaws.

3. No person shall give a false name or address for the purpose of entering the library or for the purpose of using any library facility.

4. No person who in the reasonable opinion of a library officer is offensively unclean in person or clothing or both shall remain in the library if requested by the library officer to leave.

5. Except with the consent of a library officer, no person shall:

   a) cause or allow any dog (other than a working dog accompanying a disabled person) or other animal belonging to him or under his control to enter or remain in the library;

   b) bring into any part of the library a wheeled vehicle or conveyance other than a wheelchair, pram, pushchair or shopping trolley;

   c) enter or remain in any part of the library which a reasonable person would or should know is prohibited to the public or;

   ch) remain in the library after the time fixed for its closing

6. No person shall remain in the library after an emergency situation has been made known to him.

7. No person shall, unless specifically permitted by a library officer, take or attempt to take any library property from the library or past a check out or security point.

8. No person shall behave in a disorderly manner in the library, use violent, abusive or obscene language therein, or intentionally or recklessly cause or do anything likely to cause injury to any other person or property.

9. No person shall sleep in the library after having been requested not to do so by a library officer.

10. Ni chaiff neb aros yn y llyfrgell heb ddefnyddio cyfleusterau'r llyfrgell yn y modd iawn ar ôl i swyddog llyfrgell ofyn iddo ddefnyddio'r cyfleusterau yn y modd iawn neu adael.

11. Ni chaiff neb gynnal sgwrs glywadwy mewn unrhyw ran o'r llyfrgell a neilltuir fel adran ymchwil, adran astudio neu ar gyfer darllen wedi i swyddog llyfrgell ofyn iddo beidio gwneud hynny neu lle gwaherddir y fath sgwrs gan rybudd neu ar ôl i swyddog llyfrgell ofyn iddo beidio gwneud hynny.

12. Ni chaiff neb yn fwriadol neu'n ddiofal rwystro unrhyw swyddog llyfrgell rhag gwneud ei waith, neu'n fwriadol neu'n ddiofal darfu, rwystro, dorri ar draws, sarhau neu aflonyddu ar unrhyw berson arall sy'n defnyddio'r llyfrgell.

13. Ni chaiff neb heb ganiatâd y llyfrgellydd arddangos, ddosbarthu neu adael unrhyw hysbyslen, boster, rybudd neu unrhyw ddogfen arall yn y llyfrgell yn fwriadol.

14. Ni chaiff neb, heb ganiatâd y swyddog llyfrgell, gynnig unrhyw beth i'w werthu yn y llyfrgell neu ganfasio neu geisio llofnodion ar ddeisebau.

15. Ni chaiff neb sy'n gyfrifol am blentyn adael hwnnw yn y llyfrgell heb ei oruchwylio, heb ganiatâd penodol y swyddog llyfrgell.

16. Ni chaiff neb ysmygu na thanio matsien na defnyddio taniwr sigarets yn y llyfrgell ac eithrio mewn rhan (os bydd un) a ddynodir fel man lle caniateir ysmygu.

17. Ni chaiff neb, heb ganiatâd y swyddog llyfrgell, gymryd unrhyw luniaeth yn y llyfrgell.

18. Ni chaiff neb, heb ganiatâd swyddog llyfrgell, achosi neu ganiatau i unrhyw ffôn symudol, gyfrifiadur symudol neu unrhyw gyfarpar trydanol arall neu offer ar gyfer derbyn darllediad sain neu ar gyfer atgynhyrchu sain gael eu defnyddio mewn unrhyw ran o'r llyfrgell y caiff y cyhoedd fynediad iddi.

19. Ni chaiff neb sy'n
a) benthyca eiddo'r llyfrgell a ddychwelir yn hwyr os dychwelir ef o gwbl ac sy'n
b) methu â thalu unrhyw dâl

fenthyg unrhyw eiddo arall yn perthyn i'r llyfrgell, oni fo'n cael caniatâd penodol swyddog llyfrgell.

20. a) Rhaid i unrhyw berson sydd wedi benthyca eiddo'r llyfrgell y byddai, pe dychwelid ef o gwbl, yn cael ei dychwelyd yn hwyr ac y cyflwynwyd iddo rybudd gan yr awdurdod llyfrgell yn galw am ddychwelyd yr eiddo hwnnw, wneud hynny o fewn 14 diwrnod o ddyddiad cyflwyno'r rhybudd.

b) At ddibenion yr is-ddeddf hon, gellir cyflwyno rhybudd i unrhyw berson trwy ei ddanfon iddo neu ei adael yn ei gyfeiriad arferol hysbys diwethaf neu ei yrru trwy'r post wedi'i gyfeirio ato yn y cyfeiriad hwnnw.

10. No person shall remain in a library without making proper use of the library's facilities after having been requested, by a library officer, to make such proper use of the facilities or to leave.

11. No person shall engage in audible conversation in any part of the library set apart as a reference department, study area, or for reading or where such conversation is prohibited by notice or after having been requested not to do so by a library officer.

12. No person shall intentionally or recklessly obstruct any library officer in the execution of his duty or intentionally or recklessly disturb, obstruct, interrupt, abuse or annoy any other person using the library.

13. No person shall, without the consent of a library officer, intentionally display, distribute, or leave any bill, placard, notice or other document in the library.

14. No person shall, without the consent of a library officer, offer anything for sale in the library or canvass or seek signature for petitions.

15. No person having charge of a child shall without the consent of a library officer leave him unsupervised in the library.

16. No person shall smoke, light a match or use a cigarette lighter in the library other than in an area (if any) designated as an area where smoking is permitted.

17. No person shall, except with the consent of a library officer, partake of refreshment in the library.

18. No person shall, except with the consent of a library officer, cause or allow any mobile telephone, portable computer, or other electrical equipment, or apparatus for the reception of sound broadcasting or for the reproduction of sound, to be operated in any part of the library to which the public has access.

19. No person who

a) borrows library property which is or if returned would be late and

b) fails to pay any charge

shall, unless with the specific consent of a library officer, borrow any other library property.

20. a) Any person who has borrowed library property which if returned would be returned late and who has been served with a notice by the library authority demanding return of the library property shall return the library property within 14 days from the date the notice was served.

b) For the purpose of this byelaw, a notice may be served upon any person by delivering it to him, or by leaving it at his usual last known address, or by sending it by post addressed to him at that address.

21. Bydd unrhyw berson sy'n torri unrhyw un o'r is-ddeddfau sy'n dod o flaen hyn yn atebol i gael ei erlyn gan yr awdurdod llyfrgell ac os ceir ef yn euog gan ynadon gellir ei ddirwyo hyd at lefel 2 o'r raddfa safonol mewn perthynas â phob trosedd.

22. Gall swyddog llyfrgell gadw allan unrhyw berson sy'n torri unrhyw un o'r is-ddeddfau blaenorol o unrhyw lyfrgell a gynhelir gan yr awdurdod llyfrgell o dan y Ddeddf.

23. Mae'r is-ddeddfau hyn yn dirymu'r is-ddeddfau'n ymwneud â llyfrgelloedd sy'n weithredol yn hen ardaleodd Cynghorau Sir Gwynedd a Chlwyd ar gyfer llyfrgelloedd sy'n gyfrifoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel a restrir yn yr Atloden.

[Noder: Atgoffir defnyddwyr y llyfrgell a chyfleusterau'r llyfrgell fod darpariaethau'r gyfraith gyffredinol yn gymwys ar bob adeg. Yn benodol, mae'r llyfrgell yn tynnu sylw at y posiblirwydd o ddwyn cyhuddiad droseddol o dan Ddeddf Difrod Troseddol 1971 a Deddf Canddefnyddio Cyffuriau 1971.]

**ATLODEN**

Llyfrgelloedd sy'n gyfrifoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Abergele

Bae Colwyn

Bae Cinmel

Bae Penrhyn

Cerrigydrudion

Conwy

Cyffordd Llandudno

Deganwy

Llandudno

Llanfairfechan

Llangernyw

Llanrwst

Penmaenmawr

Llyfrgell i bobl sy'n gaeth i'w cartref â'i chanolfan ym Mae Colwyn

Llyfrgell Deithiol â'i chanolfan ym Mae Colwyn

21. Any person who contravenes any of the foregoing byelaws shall be liable to prosecution by the library authority and shall be liable on summary conviction to a fine not exceeding level 2 on the standard scale in respect of each offence.

22. A library officer may exclude any person who contravenes any of the foregoing byelaws from any library maintained by the library authority under the Act.

23. These byelaws replace the byelaws relating to libraries in operation in the former areas of Gwynedd and Clwyd County Council in respect of libraries being the responsibility of the Conwy County Borough Council as listed in the Schedule.

[Note: Users of the library and library facilities are reminded that the provisions of the general law apply at all times. In particular, the library authority draws attention to the possibility of criminal charges under the Criminal Damage Act 1971 and the Misuse of Drugs Act 1971.]

**SCHEDULE**

Libraries being the responsibility of Conwy County Borough Council.

Abergele

Cerrigydrudion

Colwyn Bay

Conwy

Deganwy

Kinmel Bay

Llandudno

Llandudno Junction

Llanfairfechan

Llangernyw

Llanrwst

Penmaenmawr

Penrhyn Bay

Library to the Housebound based at Colwyn Bay

Mobile Library based at Colwyn Bay

Gosodwyd **SÊL GYFFREDIN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY**

**yma y** ...3ydd... **dydd o** ...Ebrill... **19**98

R. Evans

1486

**Ysgrifennydd y Sir**

SEAL

Cadarnheir yr is-ddeddfau uchod ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru a byddant yn dod i rym ar 1 Medi 1998.

Llofnod: D R Thomas

Printio enw yma: D. R. Thomas

Dyddiad: 7.7.98 DRT

Pennaeth yr Adain Diwylliant a Hamdden, Adran Addysg y Swyddfa Gymreig

**THE COMMON SEAL of CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**was hereunto affixed this ...3rd... day of ............April............ 19.98...**

R. Evans

1485

SEAL

**County Secretary**

The forgoing byelaws are confirmed on behalf of the Secretary of State for Wales and shall come into force on 1st September 1998.

Signature: D R Thomas

Print name here: D. R. Thomas Date: 7.7.98 DRT

Head of Cuture and Recreation Division, Welsh Office Education Department